| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 2 |

**TAG UWCH**

S23-1570N30-1

1570N30-1

**DYDD MAWRTH, 23 MAI 2023 – BORE**

# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, A GOFAL PLANT
## U2 Uned 3 – Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

2 awr 30 munud

| | I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|---|
| | **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A** | **1.** | **20** | |
| | **2.** | **20** | |
| **Adran B** | **3.** | **20** | |
| | **4.** | **22** | |
| | **5.** | **18** | |
| | **Cyfanswm** | **100** | |

1570N301 01

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes digon o le, defnyddiwch y tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae cwestiynau Adran A yn ymwneud â'r deunydd sydd wedi'i ryddhau ymlaen llaw.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn. Dylech chi rannu eich amser yn briodol.

100 yw cyfanswm nifer y marciau sydd ar gael.

Cofiwch fod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus a chlir yn eich atebion. Bydd ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys defnyddio atalnodi a gramadeg yn gywir, yn cael ei asesu yn eich ateb i gwestiwn **5**.

JUN231570N30101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

JD*(Y22-1570N30-1)

**Astudiaeth achos i'w defnyddio gyda chwestiynau 1 a 2 yn Adran A**

Mae Osian yn 2 oed ac mae'n byw mewn pentref gwledig gyda'i fam, Amy. Ers i'w rieni wahanu flwyddyn yn ôl, mae tad Osian yn byw mewn tref gyfagos. Mae Osian i fod i weld ei dad bob yn ail benwythnos (*every other weekend*), ond dydy ei dad ddim bob amser yn cadw at hyn. Daeth Amy yn feichiog gydag Osian pan oedd hi'n 18 oed ac yn dal i fod yn yr ysgol. Mae Amy eisiau gweithio ond dydy hi ddim yn meddwl y byddai hi'n gallu fforddio costau gofal plant. Mae hi hefyd yn meddwl nad oes ganddi gymwysterau addas (*suitable qualifications*). Budd-daliadau yw unig incwm Amy, ac mae hi'n aml yn cael trafferth fforddio bwyd maethlon (*nutritious food*) a dillad newydd i Osian. Does gan Amy ddim llawer o gefnogaeth gan fod ei rhieni wedi symud dramor (*overseas*) ac mae'r rhan fwyaf o'i ffrindiau yn y brifysgol.

Dydy Osian ddim wedi cael llawer o gyfleoedd i gymdeithasu â phlant eraill. Aeth Amy ag ef i grŵp rhieni a phlant bach, ond aeth hi'n bryderus (*concerned*) gan fod Osian yn dangos mwy a mwy o ymddygiad heriol o gwmpas y plant eraill. Fe wnaeth Amy benderfynu stopio mynd i'r grŵp gan fod ymddygiad Osian yn achosi pryder ac embaras iddi.

Roedd ymddygiad Osian yn cynnwys:

- mynd yn flin ac yn anhapus (*upset*) pan oedd yn gorfod rhannu teganau
- taflu teganau neu eu torri nhw'n fwriadol (*deliberately*)
- mynd â theganau wrth blant eraill
- gwrthod cymryd tro (*refusing to take turns*)
- gwthio, taro (*hitting*) a chnoi plant eraill.

Fel rhan o ddarpariaeth Dechrau'n Deg (*Flying Start*), cafodd Osian gynnig lle ym meithrinfa'r pentref ar ôl troi'n 2 oed. Katya yw goruchwyliwr y feithrinfa, a hi fydd gweithiwr allweddol Osian hefyd. Mae Katya wedi ymweld â'r teulu yn eu cartref. Mae Amy wedi mynegi ei phryderon am ymddygiad Osian o gwmpas plant eraill, ac mae hi hefyd wedi dweud am ei hanawsterau ariannol (*financial difficulties*). Fe wnaeth Katya esbonio bod y feithrinfa mewn ardal Dechrau'n Deg fyddai'n helpu Amy yn ariannol. Fe wnaethon nhw hefyd drafod strategaethau i gefnogi Osian i setlo yn y feithrinfa a chymdeithasu â phlant eraill.

Fe wnaeth Katya esbonio bod plant yn cael eu harsylwi (*observed*) fel rhan o Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Pwrpas yr arsylwi hyn yw darganfod unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ac unrhyw faterion datblygiadol (*developmental issues*) fyddai'n gallu golygu bod angen cefnogaeth ychwanegol.


© WJEC CBAC Cyf.
(1570N30-1)

Arholwr yn unig

## ADRAN A

Atebwch **bob** cwestiwn.

**1.** Darllenwch yr astudiaeth achos am Osian ac atebwch y cwestiynau isod.

(a) Amlinellwch **dri** ffactor fyddai wedi gallu cael dylanwad negyddol ar ddatblygiad Osian. [6]

1570N301 03



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch nodweddion datblygiad emosiynol a chymdeithasol ar gyfer plentyn 2 i 3 oed fel Osian. [6]



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(c) Esboniwch y strategaethau a'r dulliau byddai Katya'n gallu eu defnyddio i gefnogi Osian i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol yn y feithrinfa. [8]

1570N301 05



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.** Mae Katya wedi arsylwi bod Osian yn cael trafferth cyfathrebu am ei anghenion. Gallai hyn fod yn effeithio ar ymddygiad Osian.

(a) Dadansoddwch sut byddai parhau i arsylwi (*continuing observations*) yn gallu helpu Katya i gefnogi Osian i gyfathrebu am ei anghenion er mwyn datblygu patrymau ymddygiad cadarnhaol. [6]


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

(b) Mae Katya wedi penderfynu defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol (*positive reinforcement*) gydag Osian.
Disgrifiwch atgyfnerthu cadarnhaol yn nhermau damcaniaeth ymddygiadol Skinner, a gwerthuswch pa mor effeithiol ydyw o ran hybu patrymau ymddygiad cadarnhaol mewn plentyn fel Osian. [14]

1570N301
07

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN B

Atebwch **bob** cwestiwn.

**3.** (a) Disgrifiwch y patrwm disgwyliedig o ran datblygiad iaith (*language development*) plentyn o adeg geni hyd at 3 oed. [6]

1570N301
09

Arholwr yn unig

(b) Esboniwch sut byddai ymarferwyr yn gallu defnyddio damcaniaeth datblygiad gwybyddol Piaget i gefnogi datblygiad deallusol plant. [6]

Arholwr yn unig

(c) Dadansoddwch sut mae chwarae corfforol yn gallu hybu datblygiad cyfannol plentyn 4 i 6 oed. [8]

Arholwr yn unig

**4.** Mae chwarae yn sail i bob maes datblygiad yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

(a) Esboniwch beth yw pwrpas chwarae o ran cefnogi datblygiad plant. [6]

Arholwr yn unig

(b) Disgrifiwch sut byddai unrhyw **ddau** fath o chwarae'n gallu cefnogi meysydd datblygiad allweddol o fewn y Cyfnod Sylfaen. [8]

Arholwr yn unig

(c) Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae'n ddigymell (*spontaneous*), ond mae angen i rai plant gael help ac anogaeth (*encouragement*).

Dadansoddwch sut mae therapi chwarae yn gallu bod o fantais (*benefit*) ac yn gallu cefnogi plant sydd ag anghenion unigol penodol (*specific individual needs*). [8]



© WJEC CBAC Cyf.

(1570N30-1)

Arholwr yn unig

**5.** Mae Matthew yn 15 oed. Fe wnaeth ei fam farw llynedd, ac roedd yn rhaid i'w dad stopio gweithio er mwyn gofalu am Matthew a'i frodyr ifancach. Oherwydd anawsterau ariannol (*financial difficulties*), mae'r teulu wedi gwerthu eu tŷ a symud i dref newydd.

Mae Matthew yn cael trafferth setlo yn ei ysgol newydd ac mae'n aml yn dangos ymddygiad digywilydd (*rude*), ymosodol ac aflonyddgar (*disruptive*) yn y dosbarth. Roedd yn arfer bod yn fyfyriwr da, ond nawr mae'n dangos diffyg ymroddiad (*lacks engagement*) yn yr ysgol, mae wedi bod mewn trwbl am ymladd â myfyrwyr eraill, ac nid yw wedi ceisio gwneud ffrindiau.

Mae'r ysgol yn defnyddio Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) fel strategaeth i leihau ymddygiad annymunol (*undesired*).

Disgrifiwch y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad Matthew, a thrafodwch sut byddai strategaeth SEAL yn gallu ei helpu a'i gefnogi. [18]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

# PEIDIWCH AG YSGRIFENNU AR Y DUDALEN HON


ⓗ WJEC CBAC Cyf.